# Pwyllgor Personél

**15 Medi 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd ML Evans, Dr R Heath-Davies, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a’r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod rhithiol: 2.00p.m. – 2.40p.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mrs J James.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021.

**4. Cylch Gorchwyl Diwygiedig**
Roedd y Rheolwr Adnoddau Dynol (AD) wedi atgoffa’r Pwyllgor bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, fis Medi 2020, wedi cymeradwyo proses ar gyfer dirprwyo Polisïau AD, ac o ganlyniad i hyn, bod angen diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Personél. Roedd Cylch Gorchwyl Diwygiedig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor fis Tachwedd 2020, ond ni chafodd y diwygiadau eu derbyn, a gofynnwyd am i adolygiad llawn gael ei wneud o’r Cylch Gorchwyl. Cafodd adolygiad llawn ei gynnal, ond ni chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor, ac ers hynny roedd cyfarfod o Gadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a’r Pwyllgor Personél wedi’i gynnal i drafod y meysydd oedd o bosibl yn gorgyffwrdd rhwng gwaith y ddau Bwyllgor, yn enwedig o ran adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch.  O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, cytunwyd y dylai Cylch Gorchwyl y ddau Bwyllgor fod yn ddigyfnewid i raddau helaeth, a gofynnwyd am i'r Cylch Gorchwyl diwygiedig (a baratowyd fis Tachwedd 2020) gael ei gyflwyno eto i'r Pwyllgor Personél am eu cytundeb, ac wedyn ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i’w fabwysiadu. Hefyd gofynnwyd am i’r Pwyllgor gael ei ailenwi yn Bwyllgor Adnoddau Dynol i amlygu’r strwythur cyfredol.

Dywedodd y swyddog bod rhai gwallau teipograffyddol yn y ddogfen oedd gerbron y Pwyllgor, ac awgrymodd hefyd y dylid newid bwled d) fel bod gan y Pwyllgor drosolwg o bob polisi AD.

Cytunodd yr Aelodau â'r mân newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheolwr AD, gan awgrymu hefyd y dylid cyfeirio'n benodol at iechyd a lles meddyliol y staff.

**PENDERFYNWYD** bod y Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu, yn amodol ar y mân newidiadau i'r geiriau/teipograffyddol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

**5. Diweddariad Adnoddau Dynol**

Cyflwynodd y Rheolwr AD yr adroddiad diweddaru oedd yn cynnwys dwy adran - y cyntaf yn cynnwys ffigurau ar y nifer o staff yr Awdurdod, nifer yr absenoldeb salwch ac absenoldeb arall (diwrnodau a gollwyd), recriwtio, datblygu polisïau a hyfforddiant, tra bod yr ail adran yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau ymlaen a gymerwyd o ran llunio Strategaeth Adnoddau Dynol 2021-2024. Hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd Hysbysiad Preifatrwydd a Pholisi'r Awdurdod ar Gadw Data a gyflwynwyd er gwybodaeth a sylwadau yr Aelodau.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad clir, hawdd ei ddarllen, llongyfarchodd yr Aelodau ef ar y cynnydd a wnaed, yn enwedig yn y gostyngiad yn y ffigurau salwch tymor hir. Roedd y Rheolwr AD yn barnu bod y rheolwyr a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi gwneud gwaith da yn cefnogi'r staff drwy gyfnod oedd yn adeg anodd iawn, ac y byddai'n rhoi'r adborth hwnnw drwy'r cylchlythyr staff.

Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o nodi nifer y staff oedd yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer Cymraeg Gwaith, a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan fod rhaid defnyddio sgiliau iaith, neu fel arall hawdd yw colli'r sgiliau hynny. Atebodd y swyddog mai nod yr Awdurdod oedd y byddai pob aelod o staff yn cyrraedd lefel 1 Cymraeg Gwaith, ac y byddai hyn yn cael ei annog drwy ddysgu â chymorth a grwpiau wedi'u hwyluso.

Gofynnwyd am gael gwybodaeth bellach mewn cyfarfod yn y dyfodol am broffil oedran/ rhyw/ iaith staff yr Awdurdod, a hefyd diweddariad ar yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd cyflog fyddai'n dilyn o'r adolygiad arfaethedig o strwythur yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 heb eu diwygio. |